

---

**Deall datblygiad a dysgu plant ED841**

---

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Hydref*

*Disgrifiad o'r cymhwyster*

Mae mwy na 3,000 o fyfyrwyr yn astudio'r cymhwyster Meistr mewn Addysg, a dyma'r rhaglen ôl-raddedig fwyaf o'i bath yn Ewrop. Mae'n cynnig cymwysterau i fyfyrwyr sydd â rhywfaint o brofiad o addysgu, hyfforddi, y gwasanaeth cyngori ar addysg, gweinyddiad addysg, gwasanaethau ieuencid a phlant neu faes cysylltiedig.

Y gofyniad mynediad arferol yw gradd baglor (mewn unrhyw faes pwnc) neu gymhwyster cyfatebol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ofynion mynediad a strwythur y cymhwyster yn <http://www3.open.ac.uk/study/postgraduate/qualification/f01.htm>

Dyfernir gradd Meistr yn y Celfyddydau mewn Addysg neu radd Meistr mewn Addysg pan fydd myfyriwr wedi cwblhau modiwlau ôl-raddedig sy'n werth 180 o bwyntiau credyd yn llwyddiannus, fel a ganlyn:

- Ymholi addysgol (E891), sy'n werth 60 o bwyntiau
- 120 o gredydau o fodiwlau dewisol fel y'u dangosir ar y wefan (gall hyn gynnwys gwerth 60 o bwyntiau credyd a drosglwyddwyd)

Fel arfer, bydd angen i fyfyrwyr allu gweithio gyda dysgwyr, ond nid o reidrwydd mewn sefyllfa addysgu ffurfiol. Fe'u hanogir i gysylltu cynnwys y modiwlau â'u profiadau eu hunain ac i feithrin sgiliau astudio annibynnol ac ymholi beirniadol. Caiff myfyrwyr y rhaglen eu neilltuo i ddarlithydd cyswllt sy'n cynnal tiwtorialau grŵp ac yn rhoi cymorth unigol dros y ffôn ac yn electronig. Fel darlithydd cyswllt, ni fyddai gennych fwy na 15 myfyriwr fel arfer, a disgwylir i chi asesu pum darn o waith ac aseiniad estynedig ar ddiwedd y modiwl gan bob un.

*Disgrifiad o'r modiwl*

Anelir ED841 at bobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac mae'n ystyried datblygiad a dysgu plant mewn cyd-destunau diwylliannol, addysgol a chymdeithasol. Mae'n egluro'r modd y mae fframweithiau damcaniaethol a methodolegol yn cyfrannu at ddealltwriaeth o newid datblygiad a'r modd y gall ymchwil seicolegol lywio ymarfer addysgol a chlinigol. Bydd y myfyrwyr yn dysgu am y modd y mae plant yn llywio ac yn cyfrannu'n weithredol at eu datblygiad drwy ryngweithio'n ystyrllon ag eraill a'r modd y mae astudio datblygiad annodweddiadol a gwahaniaethau unigol yn cyfrannu at theori ac ymarfer. Bydd y myfyrwyr yn cynnal astudiaeth arsylwadol ar raddfa fach ac yn llunio cynnig ymchwil estynedig sy'n berthnasol i'w diddordebau proffesiynol eu hunain.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd mewn seicoleg neu ddatblygiad plant (yn ddelfrydol ar lefel ôl-raddedig), neu fod wedi astudio modiwlau mewn un o'r meysydd canlynol, o leiaf – seicoleg ddatblygiadol, seicoleg addysgol, datblygiad plant – fel rhan o radd israddedig neu ôl-raddedig
- profiad o addysgu ar lefel israddedig neu feistr yn o leiaf un o'r meysydd canlynol: seicoleg ddatblygiadol, datblygiad plant, seicoleg ddatblygiadol dros oes, seicoleg addysg, dulliau ymchwil seicolegol. Byddai profiad o gwblhau ymchwil yn un o'r meysydd hyn yn ddymunol.
- diddordeb mewn agweddau cymhwysol ar seicoleg ddatblygiadol, er enghraifft seicoleg ac addysgu; addysgu, dysgu ac addysgeg; addysg y blynyddoedd cynnar neu ymriadau seicolegol i blant ag anghenion dysgu

- dealltwriaeth dda o'r ffordd y caiff ymchwil ei chynllunio a'r dulliau a ddefnyddir gan seicolegwyr datblygiadol (e.e. cynllunio arbrol, arsylwi anghyfranogol, arsylwi systematig yn yr ystafell ddsbarth, codio categorïol, technegau dadansoddi data meintiol ac ansoddol).

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- cwblhau ymchwil ar lefel ddoethurol yn un o'r meysydd a nodir uchod.

*Gwybodaeth ychwanegol*

- Mae'r myfyrwyr yn perthyn i gefndiroedd gwahanol ym myd addysg a phroffesiynau cysylltiedig, ac nid yw'r modiwl yn tybio bod ganddynt wybodaeth helaeth am seicoleg.

*Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan*

Credydau a ddyfernir i'r myfyrwyr am gwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer o aseiniadau a gyflwynir gan y myfyrwyr:	5
Dull o gyflwyno'r aseiniadau:	1a
Lefel gofynion TGCh:	2
Nifer o fyfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	5
Nifer o oriau yr wythnos addysgu sy'n debygol:	3.5

*Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw hyn yn berthnasol.*